

# amserbeibl

## Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran \_\_\_\_\_ Dyddiad geni \_\_\_\_\_

Enw \_\_\_\_\_

Cyfeiriad \_\_\_\_\_

Enw Arweinydd y Dosbarth \_\_\_\_\_



### Storiâu Beiblaidd o'r Actau

Cofiwch mai un llythrennau yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th




DARLLENWCH  
Actau 2: 1-14, 36-39

### Stori 1 Pedr yn pregethu

Roedd yr Arglwydd Iesu wedi marw ac wedi'i atgyfodi. Yna, ar ôl rhai wythnosau, aeth yn ôl i'r Nefoedd. Cyn mynd, addawodd anfon yr Ysbryd Glân i helpu ei ddisgyblion i ddweud y newyddion rhagorol am Iesu.

**C** Lliwiwch bob sgwâr sydd â smotyn ynddo er mwyn cael gwybod pwy fyddai Iesu'n ei anfon i helpu'r disgyblion.



Yn fuan wedyn, daeth yr addewid yn wir! Roedd y disgyblion mewn tŷ yn Jerwsalem. Yn sydyn, cafodd y tŷ ei lenwi â sŵn fel gwynt mawr yn rhuthro. Yna, daeth rhywbeth fel fflamau tân i orffwys ar ben y dynion i gyd. Dyna brofiad rhyfedd! Roedd yr Ysbryd Glân wedi dod!


**C** Llanwch y grid geiriau gan ddefnyddio'r cliwiau hyn.

1. Roedd y dynion mewn \_\_ \_\_.

2. Daeth rhywbeth fel fflamau tân i orffwys ar \_\_ \_\_ \_\_ y dynion.

3. Clywsant sŵn \_ \_ \_ \_ \_.

O hyn ymlaen, cafodd disgyblion Iesu enw newydd.



4

3

ADNOD  
ALLWEDDOL  
Actau 2:36

Gofynnwch i rywun  
eich helpu i ddod  
o hyd i'r adnod.

**C** Ysgrifennwch lythyren gyntaf enw pob un o'r pethau isod i gael gwybod yr enw.



4

Ar ôl derbyn yr Ysbryd Glân, roedd yr apostolion yn gallu siarad mewn ieithoedd dieithr. Roedd llawer o bobl yn synnu o'u clywed yn siarad gwahanol ieithoedd! Roedd rhai hyd yn oed yn meddwl mai wedi meddwi oedden nhw ond nid oedd hynny'n wir!

**C** Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw diwedd y brawddegau hyn yn gywir ynteu'n anghywir.

Pan ddaeth yr Ysbryd Glân,  
llewygodd yr apostolion. ....  
meddwodd yr apostolion. ....  
roedd yr apostolion mor ofnus fel nad siaradon nhw â neb. ....  
roedd yr apostolion yn gallu siarad ieithoedd newydd. ....

4

Dechreuodd Pedr bregethu wrth y dyrfa oedd wedi crynhoi. Dywedodd wrthyn nhw eu bod wedi gwneud camgymeriad mawr wrth beidio â chredu yn Iesu. Roedden nhw wedi gwrthod Iesu ond roedd Duw wedi'i wneud yn Arglwydd ac yn Grist. Dyna pam rydyn ni'n ei alw'n

“Arglwydd  
Iesu Grist”

**Addurnwch y llythrennau.**

5

Dywedodd Pedr wrth y dyrfa y dylai fod yn ddrwg iawn ganddynt am yr hyn yr oeddent wedi'i wneud. Dylent gredu yn yr Arglwydd Iesu. Wedyn, byddai Duw yn maddau iddynt. Bydd yn maddau i ni os gwnawn ni gredu yn yr Arglwydd Iesu a'i dderbyn yn Waredwr ac yn Arglwydd.



DARLLENWCH  
Actau 3: 1-12




ADNOD  
ALLWEDDOL  
Actau 3 :16

Gofynnwch i rywun  
eich helpu i ddod  
o hyd i'r adnod.


## Stori 2 Pedr yn gwella dyn cloff

Ceisiwch ddechymgu bywyd pe na baech yn gallu cerdded! Fyddech chi ddim yn gallu rhedeg o gwmpas, cymryd rhan mewn rhai chwaraeon na mynd i grwydro. Byddai bywyd yn wahanol iawn! Dyma stori am ddyn nad oedd wedi gallu cerdded erioed. Erbyn hyn roedd dros 40 oed! Gan nad oedd yn gallu cerdded, roedd yn gorfod cardota – gofyn i bobl am arian; bob dydd, roedd ei ffrindiau'n ei gario at borth y Deml yn Jerwsalem a byddai'n eistedd yno trwy'r dydd yn cardota, yn gobeithio y byddai pobl garedig yn rhoi arian iddo.



### C Ysgrifennwch y geiriau sydd ar goll o'r brawddegau hyn yn y Grid Geiriau.


1. Roedd Pedr ac Ioan yn mynd i'r \_\_\_\_\_.
2. Yn \_\_\_\_\_ yr oedd y deml.
3. Gwelson nhw ddyn \_\_\_\_\_ yn eistedd wrth y porth.
4. Roedd pobl yn rhoi \_\_\_\_\_ iddo wrth basio.



Un diwrnod, pan oedd Pedr ac Ioan yn mynd i'r Deml, galwodd y dyn arnynt a gofyn am arian. Arhosodd y ddau apostol a throi at y dyn. "Edrych arnon ni," meddai Pedr. Edrychodd y dyn cloff arnynt nhw. Roedd yn meddwl eu bod nhw am roi arian iddo!

4

### C Ysgrifennwch enwau'r ddau apostol.



P \_ \_ \_



I \_ \_ \_

4

Doedd gan Pedr ddim arian y diwrnod hwnnw, ond roedd ganddo rywbeth gwell o lawer! “Does gen i ddim arian nac aur,” meddai Pedr, “ond fe gei di beth sydd gennyf i’w roi. Yn enw Iesu, cwyd ar dy draed a cherdda.” Yna, gafaelodd Pedr yn ei law a helpu’r dyn cloff i godi. Yr union funud honno, cryfhaodd traed a choesau’r dyn. Am y tro cyntaf yn ei fywyd, cerddodd!



**C** Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw’r brawddegau hyn yn gywir ynteu’n anghywir:-

- Rhoddodd Pedr arian i’r dyn. ....
- Nerth yr Arglwydd Iesu a wnaeth y dyn yn well. ....
- Cododd y dyn ar ei draed ar ei ben ei hunan. ....
- Cryfhaodd traed a choesau’r dyn. ....

4

Roedd y dyn cloff yn hapus iawn! Cerddodd o gwmpas a neidio yn yr awyr. Ond, yn bwysicaf oll, diolchodd i Dduw. Gwyddai mai trwy nerth yr Arglwydd Iesu roedd wedi cael ei wella.

**C** Llanwch y bylchau i ddangos beth ddywedodd Pedr.

Mae angen Iesu arnon ni hefyd. Dim ond ef sy’n gallu maddau ein beiau ni a’n gwneud ni’n barod i fynd i’r Nefoedd. Ydych chi wedi diolch iddo am roi ei fywyd drosoch? Roedd cyffro mawr yn y Deml. Roedd pobl yn rhyfeddu at yr hyn a ddigwyddodd. “Pam rydych chi’n synnu?” gofynnodd Pedr. “Mae Duw wedi gwella’r dyn yma trwy nerth yr Arglwydd Iesu.” Mae’r wyrth fawr hon, yn dangos bod Iesu, a oedd wedi marw ar y groes, yn fyw yn y Nefoedd, a bod ei waith yn mynd ymlaen o hyd.

Yn e \_\_\_\_  
I \_\_\_\_, c \_\_\_\_ ar dy  
d \_\_\_\_ a ch \_\_\_\_.

4

**Lliwiwch y geiriau.**

Nerth yr Arglwydd Iesu  
a iachaodd y dyn oedd  
yn methu cerdded.

4



DARLLENWCH  
Actau 4: 1-22



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Hebraid 13:6

Gofynnwch i rywun  
eich helpu i ddod  
o hyd i'r adnod.

### Stori 3 Pedr yn y carchar

Tyfodd y dyrfa o bobl oedd o gwmpas Pedr ac Ioan yn fwy ac yn fwy. Roedd Pedr yn dweud wrthynt mai trwy nerth yr Arglwydd Iesu yr oedd y dyn cloff yn gallu cerdded. Roedd yn wir bod Iesu wedi marw, ond roedd Pedr yn hollol sicr bod Duw wedi'i godi'n fyw eto.



#### C Beth ddywedodd Pedr bod Duw wedi'i wneud i Iesu?

Roedd wedi'i g \_\_\_\_\_ yn fyw ar ôl iddo f \_\_\_\_\_ .

4

Tra oedd Pedr yn pregethu, daeth rhai o brif ddynion y Deml ato. Doedden nhw ddim yn fodlon bod Pedr yn dweud bod Iesu wedi cael ei atgyfodi ar ôl iddo farw. Dyma nhw'n arestio'r ddau apostol ac yn eu rhoi yn y carchar dros nos.

#### C Ysgrifennwch enwau'r ddau apostol a gafodd eu harestio ar y carchar.




4

Fore trannoeth, daeth nifer o Iddewon pwysig at ei gilydd i weithredu fel llys barn. Nhw fyddai'n penderfynu beth i'w wneud â Pedr ac Ioan. Pan oeddent yn barod, galwyd am Pedr ac Ioan. "Trwy ba nerth neu drwy ba enw wnaethoch chi hyn?" meddent. Unwaith eto, Pedr a siaradodd. Dywedodd yr un peth wrth y llys ag a ddywedodd wrth y dyrfa y noson gynt.

**C** Llanwch y bylchau i gael gweld beth ddywedodd Pedr.

groeshoelio      Iesu Grist      iacháu      fyw



4


Doedd aelodau'r llys ddim yn gwybod beth i'w wneud â Pedr ac Ioan. Buon nhw'n trafod y mater yn breifat. Roedd yn amlwg bod gwyrth fawr wedi digwydd, achos roedd y dyn a oedd wedi bod yn gloff yn sefyll yno. Yr unig beth y gallent ei wneud oedd eu gwahardd rhag pregethu am Iesu. Ar ôl gwneud hynny, cawsant fynd.

**C** Dim ond DWY o'r brawddegau hyn sy'n wir.  
Ysgrifennwch 'GWIR' ar eu hôl.

1. Cafodd Pedr ac Ioan fynd yn rhydd. ....
2. Dihangodd Pedr ac Ioan pan oedd y llys yn trafod yn breifat. ....
3. Diolchodd y llys iddynt am wneud y dyn yn well. ....
4. Dywedwyd wrth yr apostolion am roi'r gorau i bregethu am Iesu. ....

4

Roedd Pedr ac Ioan yn ddewr iawn. Doedd dim ofn y bygythiadau arnyn nhw. Dyma a ddywedon nhw:-



Lliwiwch yr adnod hon o'r Beibl a'i dysgu.

“Yr Arglwydd  
yw'r un sydd yn  
fy helpu i.”

Hebreaid 13: 6

4



DARLLENWCH  
Actau 4: 23-31




ADNOD  
ALLWEDDOL  
Actau 4:31

Gofynnwch i rywun  
eich helpu i ddod  
o hyd i'r adnod

## Stori 4 Pedr yn cael ei ryddhau

Rhaid bod Pedr ac Ioan yn hapus iawn pan gawson nhw fynd yn rhydd ar ôl bod yn y llys yn Jerwsalem! Aethon nhw ar unwaith i ddweud wrth y Cristnogion eraill beth oedd wedi digwydd ac, yn enwedig, sut y cawson nhw orchymyn i beidio â siarad am eu Hargwydd, Iesu Grist.



### C Tanlinellwch y gair neu'r geiriau CYWIR yn y brawddegau hyn:-


1. Cafodd yr apostolion eu CURO / RHOI DAN GLO / RHYDDHAU gan y llys.
2. Digwyddodd yr achos llys yn RHUFAIN / JERWSALEM / BETHLEHEM.
3. Ar ôl gadael y gell, aethant i weld PONTIUS PILAT / Y BRENIN HEROD / CRISTNOGION ERAILL.

Gwrandawodd pawb yn ofalus ar stori'n apostolion. Ar y diwedd, y cwestiwn mawr oedd:- 'A wnawn ni ddal i siarad am Iesu neu a wnawn ni wrando ar y llys?'

Roedden nhw'n gwybod mai'r peth iawn i'w wneud oedd bod yn ufudd i Iesu. Roedd Iesu wedi dweud wrthyn nhw am ddweud y newyddion da amdano wrth bawb yn y byd. Gan eu bod yn caru Iesu, roedden arnyn nhw eisiau bod yn ufudd iddo. Ond roedd hynny'n golygu peidio â gwrando ar y llys. Byddai hynny'n achosi trafferth mawr! Beth ddylen nhw ei wneud?

### C Cwblhewch y GRID GEIRIAU.

1. Mae'r \_\_\_\_\_ da am Iesu ar gyfer yr holl fyd.
2. Un o'r apostolion.
3. Dylai Cristnogion fod yn \_\_\_\_\_ i Iesu.
4. Apostol arall.
5. Os nad ydyn ni'n ufudd, rydyn ni'n \_\_\_\_\_.





Er mwyn ystyried beth i'w wneud, dyma nhw'n penderfynu siarad â Duw am y peth. Dyma nhw'n dechrau gweddïo! Roedden nhw'n credu y gallai Duw roi nerth iddyn nhw sôn am Iesu Grist. Fe wnaethon nhw ofyn iddo wneud rhagor o wyrthiau hefyd, yn enw Iesu. Byddai hyn yn profi bod y pethau roedden nhw'n eu dweud am Iesu yn wir.

**C** Rhowch y geiriau yn y brawddegau hyn yn y drefn gywir.

1. Roedden nhw'n mynd i fod yn  
FUDDU \_\_\_\_\_ i Iesu,  
nid i'r SYLL \_\_\_\_\_.

2. Fe wnaethon nhw  
ODDiWE \_\_\_\_\_ ar Dduw  
am NTHRE \_\_\_\_\_.



8

Weithiau, mae'n rhaid i ni aros yn hir am atebion i'n gweddïau. Doedd dim rhaid i Pedr ac Ioan a'u ffrindiau aros yn hir o gwbl! Atebodd Duw ar unwaith, mewn ffordd ryfeddol iawn. Ysgydwyd yr adeilad cyfan a chafodd pawb eu llenwi â'r Ysbryd Glân. Aethant allan i bregethu Gair Duw yn ddewr. Rydyn ni'n gorfod gwneud penderfyniadau anodd am bell waith. Y peth gorau i'w wneud BOB AMSER yw gwrandao ar Iesu Grist a bod yn UFUDD iddo.

**C** Lliwiwch yr adnod a'u dysgu.

“Ceisiwch yn gyntaf  
deyrnas Duw”

4

Mathew 6: 33

cyfanswm

Marciau  
(i'w nodi gan yr arweinydd)

---

---

---

---

---

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.  
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.  
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.  
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org)  
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:  
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwillog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120